# Cyfarwyddwr Gweithredol Trawsnewid Busnes

Cartrefi Conwy

- **Contract Cyfnod Penodol, 3 blynedd**
- **Pecyn Chyflog a Cystadleuol**
- **Gogledd Cymru, Pencadlys Abergele**

Mae Cartrefi Conwy yn gymdeithas dai flaenllaw, sy'n rheoli tua 4,300 o gartrefi fforddiadwy o ansawdd uchel ar gyfer dros 9,000 o denantiaid ledled Conwy. Fel un o gyflogwyr mwyaf Gogledd Cymru, rydym yn mynd y tu hwnt i dai, gan greu cyfleoedd i'n cwsmeriaid, ein cydweithwyr a'n cymunedau ffynnu.

Mae ein Grŵp yn cynnwys Creu Menter, ein his-gwmni sydd wedi ennill sawl gwobr. Mae'r fenter gymdeithasol hon yn ailfuddsoddi'r holl elw ac yn adeiladu cyfleoedd cyflogaeth, gan gefnogi cymunedau lleol. Gyda chyfleuster gweithgynhyrchu pren modern yn Y Rhyl a thimau gwasanaeth cynnal a chadw eiddo hanfodol, mae'r is-gwmni hwn yn sicrhau bod ein heiddo yn parhau i fod yn fforddiadwy, o ansawdd uchel, yn ddiogel ac yn gynaliadwy.

Yn dilyn lansiad ein tri blwyddyn Cynllun Corfforaethol Gyda'n Gilydd ym mis Ebrill 2025, rydym yn chwilio am Weithredwr Trawsnewid Busnes blaengar i gynllunio, datblygu a chyflwyno Rhaglen Trawsnewid Busnes ledled y sefydliad.

Gan roi ein pobl wrth galon y fenter hon, byddwch yn gyrru arloesedd digidol, gwelliannau strategol i Dechnoleg Gwybodaeth, gwelliannau prosesau, ac optimeiddio data, gan feithrin dull gweithredu unedig "un tîm". Mae hwn yn gyfle cyffrous i yrru newid ystyrlon, gwella effeithlonrwydd, ac arwain trawsnewidiad arloesol a fydd yn siapio dyfodol ein sefydliad.

Fel arweinydd dibynadwy ac aelod allweddol o'n Tîm Arweinyddiaeth Weithredol a'n Tîm Uwch Arweinyddiaeth, byddwch yn:

- Arwain trwy esiampl, gan ddangos ymrwymiadau craidd Cartrefi Conwy: Rydym yni'n gwneud y peth iawn, rydym yn arwain trwy esiampl, ac rydym yn gryfach gyda'n gilydd.
- Ysbrydoli, arwain ac ysgogi cydweithwyr, gan weithredu fel model rôl ar gyfer perfformiad uchel.
- Hyrwyddo profiad cwsmeriaid, gan sicrhau bod trawsnewid yn bodloni anghenion sy'n esblygu tenantiaid a chydweithwyr.
- Gyrru ymgysylltiad ystyrlon â thenantiaid a chydweithwyr i lunio atebion effeithiol.
- Cyfathrebu'n effeithiol, gan ymgysylltu â chynulleidfa amrywiol a rhanddeiliaid allweddol.
- Darparu arweinyddiaeth strategol, gan sicrhau bod y rhaglen drawsnewid yn cyflawni'r canlyniadau gorau i'n cwsmeriaid a'n cydweithwyr.

Yr hyn rydm yn chwilio amdano:

- Profiad ar lefel weithredol mewn trawsnewid busnes a chyflwyno rhaglenni newid sefydliad gyfan.
- Addysg lefel gradd mewn technoleg busnes neu faes cysylltiedig, gyda chefnogaeth datblygiad proffesiynol parhaus.
- Sgiliau arwain datblygedig iawn, sy'n eich galluogi i ysbrydoli timau, gyrru newid sefydliadol, a datblygu talent.
- Crebwyll masnachol cryf, gyda'r gallu i yrru effeithlonrwydd a gwerth am arian.
- Y gallu i edrych tua'r gorwelion, gan adnabod heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.
- Arbenigedd mewn dadansoddi ac ail-ddylunio prosesau busnes i yrru gwelliannau mawr ac aliniad diwylliannol.

I ddarganfod mwy am y swydd hon ewch i leadatcartreficonwy.co.uk

Am drafodaeth gyfrinachol ac i gofrestru eich diddordeb, cysylltwch ag Anne Elliott yn EMA ar 07875 762029.

**Dyddiad Cau: 12 hanner dydd 28 Mai 2025**




